# Ysgol Gymraeg Parc y Tywyn


Heol y Bardd, Porth Tywyn,
Sir Gaerfyrddin SA16 0NL
Ffôn:- 01554 832101
Ebost: admin@parcytywyn.ysgolccc.cymru
www.ysgolparcytywyn.co.uk
Pennaeth / Headteacher : Mr C Davies


26/11/2020

## PWYSIG : At sylw rheini y meithrin a’r derbyn

Annwyl Riant / Gwarcheidwad,

Fel y gwyddoch, nodwyd bod disgyblion ac aelodau staff Meithrin rhan amser, Meithrin llawn amser a’r dosbarth Derbyn wedi dod i gysylltiad agos â'r unigolyn sydd wedi profi'n bositif.

Mae'r tîm TTP wedi cadarnhau gyda ni y bydd angen i'r dosbarthiadau yma / eich plentyn hunan-ynysu fel rhagofal tan ddydd Iau 3ydd Rhagfyr a gallant ddychwelyd i'r ysgol ar ddydd Gwener 4ydd Rhagfyr (ar yr amod eu bod yn ffit ac yn iach).

Ni fydd TTP yn cysylltu â chi'n unigol yn yr achos hwn.

**Gall pawb arall ar yr aelwyd barhau fel arfer (fodd bynnag, os bydd eich plentyn yn dod yn symptomatig, yna byddai angen i'r cartref cyfan hunan-ynysu, ac mi fydd angen i chi i gysylltu â TTP i’n hysbysu).**

Mae'n bwysig bod eich plentyn / plant yn parhau i ymgysylltu â'u dysgu wrth iddynt ynysu eu hunain. Mae ystod o dasgau i'w cyflawni ar ein gwefan. Gweler y ddolen yma am weithgareddau posib: https://www.ysgolparcytywyn.co.uk/meithrin-a-derbyn-nursery-and-reception/ .

Gallwch ddod o hyd i’n trefniadau dysgu o adref, sydd ar gael ar ein gwefan, yma : https://primarysite-prod-sorted.s3.amazonaws.com/parc-y-tywyn-school/UploadedDocument/1048df98361d4ff7be541440d9a8cd46/canllawiau-dysgu-adref.pdf

Os bydd unrhyw achosion positif pellach, bydd yr holl ddiweddariadau yn cael eu cyhoeddi ar wefan y cyngor newyddion.sirgar.llyw.cymru

Diolch am eich cydweithrediad.

Cadwch yn ddiogel,

*C Davies*
Pennaeth